GWNEWCH WAHANIAETH YN EICH CYMUNED

Dewch yn Aelod Annibynnol
Ydych chi'n gwerthfawrogi tegwch, uniondeb ac atebolrwydd? A hoffech ddefnyddio eich sgiliau, eich profiad a'ch barn annibynnol i helpu i gynnal safonau uchel mewn bywyd cyhoeddus?

Mae Cyngor Sir y Fflint ac Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn gweithio gyda'i gilydd i recriwtio **hyd at dri Aelod Annibynnol** ar gyfer eu Pwyllgorau Safonau priodol. Gellir penodi ymgeiswyr llwyddiannus i un neu'r ddau awdurdod.

Pwy ydyn ni'n chwilio amdano?
Pobl o bob cefndir sy'n gallu dod â safbwynt newydd a dangos:

- Uniondeb, didueddrwydd a gwrthrychedd.
- Sgiliau gwrando, cyfathrebu a gwaith tîm da.
- Y gallu i ystyried tystiolaeth yn deg a pharchu safbwyntiau gwahanol.

Nid oes angen profiad mewn gwleidyddiaeth na llywodraeth leol arnoch, ond rhaid i ymgeiswyr beidio â chymryd rhan weithredol mewn gwleidyddiaeth leol neu genedlaethol.

Beth mae'r rôl yn ei gynnig?
Cyfle i gyfrannu at eich cymuned, cefnogi atebolrwydd a helpu i gynnal hyder y cyhoedd mewn democratiaeth leol.

Tâl: £105 am gyfarfodydd hyd at bedair awr a £210 am gyfarfodydd dros bedair awr, ynghyd â threuliau teithio a chynhaliaeth cymwys.

Darganfyddwch fwy a gwnewch gais:

Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru:
www.tangogleddcymru.llyw.cymru/amdanom-ni/recriwtio/swyddi-gwag/

Cyngor Sir Sir Fflint:
https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Jobs-and-careers/Current-Vacancies/Home.aspx

Ymholiadau: Tîm Recriwtio Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru – 01745 535250 neu **recriwtio@tangogleddcymru.llyw.cymru**

Dyddiad cau: 9.00am, 4 Ionawr 2027
Cyfweliadau: Disgwylir 11 Ionawr 2027

MAKE A DIFFERENCE IN YOUR COMMUNITY

Become an Independent Member
Do you value fairness, integrity and accountability? Would you like to use your skills, experience and independent judgement to help uphold high standards in public life?

Flintshire County Council and North Wales Fire and Rescue Authority are working together to recruit **up to three Independent Members** for their respective Standards Committees. Successful applicants may be appointed to one or both authorities.

Who are we looking for?
People from all walks of life who can bring a fresh perspective and demonstrate:

- Integrity, impartiality and objectivity.
- Good listening, communication and teamwork skills.
- The ability to consider evidence fairly and respect different viewpoints.

You don't need experience in politics or local government, but applicants must not actively participate in local or national politics.

What does the role offer?
An opportunity to contribute to your community, support accountability and help maintain public confidence in local democracy.

Remuneration: £105 for meetings up to four hours and £210 for meetings over four hours, plus eligible travel and subsistence expenses.

Find out more and apply:

North Wales Fire and Rescue Service:
www.northwalesfire.gov.wales/about-us/recruitment-and-vacancies/vacancies/

Flintshire County Council:
www.flintshire.gov.uk/en/Resident/Jobs-and-careers/Current-Job-Vacancies/Home.aspx

Enquiries: North Wales Fire & Rescue Service Recruitment Team – 01745 535250 or **recruitment@northwalesfire.gov.wales**.

Closing date: 9.00am, 4 January 2027
Interviews: Expected 11 January 2027